

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**18/06/2008**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**  
**Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus  
Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery
  
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau  
Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**  
**Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery**

**Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Health and Social Services**

**C8 Bethan Jenkins:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(3)0371(FPS)

**Q8 Bethan Jenkins:** What representations has the Minister received regarding the provision of additional funding for the health and social services portfolio? OAQ(3)0371(FPS)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae trafodaethau cyson rhwng Gweinidogion ar ystod o bynciau ariannol a chyllidebol.

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Regular discussions are held between Ministers on a range of financial and budgetary issues.

**Monitoring the Budget**

**Monitro'r Gyllideb**

**Q9 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on how the budget is being monitored to ensure its effectiveness? OAQ(3)0388(FPS)

**C9 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'r gyllideb yn cael ei monitro i sicrhau ei heffeithiolrwydd? OAQ(3)0388(FPS)

**The First Minister:** In a challenging financial environment, our focus is on the delivery of the 'One Wales' programme in a way that maximises the Welsh pound. Rigorous, continuous monitoring of the efficiency and effectiveness of Assembly Government spending programmes, aided by the enterprise resource planning system, is a core element of the budget process.

**Y Prif Weinidog:** Mewn hinsawdd ariannol heriol, yr ydym yn canolbwyntio ar gyflawni rhaglen 'Cymru'n Un' mewn modd sy'n gwneud y mwyaf o'r bunt Gymreig. Mae monitro manwl a pharhaus o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd rhaglenni gwario Llywodraeth Cynulliad Cymru, â chymorth y system cynllunio adnoddau a menter, wrth wraidd y broses gyllidebol.

**End-year Flexibility**

**Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn**

**Q10 Peter Black:** Will the Minister make a

**C10 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog

statement on this year's end-year flexibility?  
OAQ(3)0379(FPS)

**The First Minister:** We will not know the precise level of our end-year flexibility stocks until after the 2007-08 accounts are signed off later this summer. As in previous years, our aim for 2008-09 will be to bring expenditure in close to the budget and, as a result, generate minimal levels of end-year flexibility.

### Tanwariant

**C11 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio tanwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y gyllideb gyffredinol? OAQ(3)0355(FPS)

**Y Prif Weinidog:** Ein nod bob blwyddyn yw cadw cyfanswm gwariant Llywodraeth y Cynulliad mor agos at y gyllideb ag y bo modd. Lle mae rhaglenni penodol yn rhagweld y byddant yn tanwario yn erbyn y gyllideb, ein harfer yw ailgylchu'r tanwariant hwn yn ystod y flwyddyn i ariannu blaenoriaethau a phwysau strategol nad oedd modd eu rhagweld ar ddechrau'r flwyddyn.

### Health and Social Services

**Q12 Jonathan Morgan:** Did the Minister give any consideration to the health Minister's proposals to restructure the national health service when allocating funding to the health and social services portfolio? OAQ(3)0348(FPS)

**The First Minister:** Relevant information available at the time, on a range of issues, was taken into account in considering allocations of funding to all portfolios.

### Value for Money

**Q13 Lynne Neagle:** Will the Minister make a statement on how the Assembly Government plans to improve value for money in public service delivery? OAQ(3)0362(FPS)

**The First Minister:** As part of the Welsh Assembly Government's drive to improve public services in Wales, we have a

ddatganiad am hyblygrwydd diwedd blwyddyn eleni? OAQ(3)0379(FPS)

**Y Prif Weinidog:** Ni fyddwn yn gwybod union lefel ein stociau hyblygrwydd diwedd blwyddyn nes i gyfrifon 2007-08 gael eu cymeradwyo yn ddiweddarach yn ystod yr haf. Yn yr un modd ag yn y gorffennol, ein nod ar gyfer 2008-09 fydd cadw gwariant o fewn i'r gyllideb ac, o ganlyniad i hynny, creu lefelau isel o hyblygrwydd diwedd blwyddyn.

### Underspending

**Q11 Paul Davies:** Will the Minister make a statement on the use of Welsh Assembly Government underspends within the overall budget? OAQ(3)0355(FPS)

**The First Minister:** Our aim each year is to bring total Assembly Government expenditure in as close to the budget as possible. Where particular programmes are forecasting underspends against the budget, our approach is to recycle these underspends in-year to fund strategic priorities and pressures that could not be anticipated at the start of the year.

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**C12 Jonathan Morgan:** A oedd y Gweinidog wedi ystyried cynigion y Gweinidog dros iechyd i ailstrwythuro'r GIG wrth ddyrannu cyllid ar gyfer y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(3)0348(FPS)

**Y Prif Weinidog:** Cafodd gwybodaeth berthnasol a oedd ar gael ar y pryd, ynghylch ystod o faterion, ei hystyried wrth roi sylw i sut i ddyrannu arian i bob portffolio.

### Gwerth am Arian

**C13 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu gwella gwerth am arian yng nghyswllt cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(3)0362(FPS)

**Y Prif Weinidog:** Fel rhan o ymgyrch Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae

programme of measures that deliver better value for the Welsh pound. This includes the xchangelwales programme that I announced recently, which has the potential to generate £200 million-worth of savings over five years.

#### **Adeilad y Llywodraeth (Llandudno)**

**C14 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaethpwyd ar adeilad Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghyffordd Llandudno? OAQ(3)0370(FPS)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r broses ailgaffael ar gyfer contract adeiladu Cyffordd Llandudno yn dal i fynd rhagddi yn unol â'r amserlen, a disgwylir penodi contractwr dros yr haf. Mae tîm y prosiect yn anelu at gwblhau'r gwaith adeiladu erbyn dechrau 2010. Wedyn, bydd cyfnod pan fydd y cleient yn gosod offer, a bydd y comisiynu a'r trosglwyddo yn digwydd. Wedyn, bydd pobl yn symud i'r adeiladau tua adeg yr haf neu'r gwanwyn yn 2010.

#### **Public Service Delivery**

**Q15 Lesley Griffiths:** What steps is the Minister taking to improve public service delivery in Wales? OAQ(3)0347(FPS)

**The First Minister:** We intend to deliver public services that place the needs of all citizens and communities at the heart of how services are designed and delivered. We want to see public services improve continually and consistently, to become better co-ordinated, forward thinking, innovative, ambitious and accountable.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

#### **Improving Access to Higher Education**

**Q8 Huw Lewis:** Will the Minister make a statement on how the Welsh Assembly Government plans to improve access to higher education for people from deprived communities? OAQ(3)0507(CEL)

gennym raglen o fesurau sy'n cynnig gwerth gwell am arian am y bunt Gymreig. Mae hyn yn cynnwys rhaglen cyfnewidcymru a gyhoeddwyd gennyf yn ddiweddar, sydd â'r potensial i gyflawni arbedion gwerth £200 miliwn dros bum mlynedd.

#### **Government Building (Llandudno)**

**Q14 Gareth Jones:** Will the Minister make a statement on progress made on the Welsh Assembly Government building in Llandudno Junction? OAQ(3)0370(FPS)

**The First Minister:** The re-procurement process for the Llandudno Junction construction contract remains on schedule, and a contractor is expected to be appointed during the summer. The project team is working towards the completion of construction by early 2010, followed by a period of client fit-out, commissioning and handover. The building will be occupied around the spring or summer of 2010.

#### **Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**

**C15 Lesley Griffiths:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(3)0347(FPS)

**Y Prif Weinidog:** Ein bwriad yw cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n sicrhau bod anghenion pob dinesydd a chymuned wrth wraidd sut y mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno. Yr ydym am weld gwasanaethau cyhoeddus yn gwella'n barhaus ac yn gyson, er mwyn iddynt fod yn fwy cydgysylltiedig, yn flaengar, yn arloesol, yn uchelgeisiol ac yn atebol.

#### **Gwella Mynediad Pobl at Addysg Uwch**

**C8 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu gwella mynediad pobl o gymunedau difreintiedig at addysg uwch? OAQ(3)0507(CEL)

**The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt):**

Widening access is a key Assembly Government priority across policies on fees, bursaries, diversity and student support. Latest Higher Education Statistics Agency data for 2006-07 entry show that higher education institutions in Wales are recruiting greater proportions of students from underrepresented groups than the UK as a whole.

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):**

Mae ehangu mynediad yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ar draws polisiau ar ffioedd, bwrsariau, amrywiaeth a chymorth i fyfyrwyr. Mae'r data diweddaraf oddi wrth Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ar gyfer mynediad at addysg uwch yn ystod 2006-07 yn dangos bod sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn recriwtio cyfrannau uwch o fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol na'r DU gyfan.

**Childcare Provision**

**Q9 Lorraine Barrett:** Will the Minister provide an update on what the Welsh Assembly Government is doing to improve childcare provision in Wales? OAQ(3)0490(CEL)

**Jane Hutt:** Our childcare strategy, 'Childcare is for Children', sets out how we are addressing childcare needs. An additional £15 million over three years is allocated for Flying Start, for out-of-school childcare, and to support local authorities in their new duty to secure sufficient childcare.

**Darparu Gofal Plant**

**C9 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i wella darpariaeth gofal plant yng Nghymru? OAQ(3)0490(CEL)

**Jane Hutt:** Mae ein strategaeth gofal plant, 'Ar gyfer Plant y mae Gofal', yn nodi sut yr ydym yn mynd i'r afael ag anghenion gofal plant. Mae £15 miliwn yn ychwanegol dros dair blynedd yn cael ei ddyrannu ar gyfer Dechrau'n Deg, ar gyfer gofal plant y tu allan i oriau ysgol, ac i gefnogi'r awdurdodau lleol yn eu dyletswydd newydd i sicrhau gofal plant digonol.

*Tynnwyd cwestiwn 10, OAQ(3)0484(CEL), yn ôl. Question 10, OAQ(3)0484(CEL), is withdrawn.*

**The Welsh Baccalaureate**

**Q11 Val Lloyd:** Will the Minister provide an update report on the Welsh baccalaureate? OAQ(3)0491(CEL)

**Jane Hutt:** 'One Wales' promises a broader-based baccalaureate. We expect that more than 40 per cent of post-16 learners will follow Welsh baccalaureate courses by 2010. The roll-out at foundation level and in key stage 4 will be announced shortly and, from September 2009, we will implement new applied learning within the Welsh baccalaureate.

**Bagloriaeth Cymru**

**C11 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fagloriaeth Cymru? OAQ(3)0491(CEL)

**Jane Hutt:** Mae 'Cymru'n Un' yn addo bagloriaeth â sylfaen ehangach. Yr ydym yn disgwyl i fwy na 40 y cant o ddysgwyr ôl-16 ddilyn cyrsiau bagloriaeth Cymru erbyn 2010. Caiff yr amserlen ar gyfer cyflwyno cyrsiau ar y lefel sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 4 ei chyhoeddi cyn hir ac, o Fedi 2009 ymlaen, byddwn yn rhoi dysgu cymwysedig newydd ar waith o fewn bagloriaeth Cymru.

**Work-based Learning**

**Q12 Paul Davies:** Will the Minister make a statement on the funding allocated to further

**Dysgu sy'n Seiliedig ar Waith**

**C12 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid a ddyrennir i

education institutions for the provision of work-based learning? OAQ(3)0461(CEL)  
*Transferred for answer by the Deputy Minister for Skills.*

**The Deputy Minister for Skills (John Griffiths):** Funding for work-based learning is not allocated to further education institutions. Every three years, the Welsh Assembly Government goes out to tender for this provision. In the current contract year, further education institutions were awarded funding that totalled £17.4 million, some 15 per cent of the total funding available.

### Supply Teachers

**Q13 Bethan Jenkins:** Will the Minister make a statement on the provision of supply teachers? OAQ(3)0498(CEL)

**Jane Hutt:** At 9 June, the total number of supply teachers on the General Teaching Council for Wales register of qualified teachers was 4,857. It is for individual schools, their governing bodies and local authorities to decide on the appropriate deployment of staff to meet the needs of learners.

### Attainment Levels

**Q14 Lynne Neagle:** Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government plans to improve attainment levels in Welsh schools? OAQ(3)0502(CEL)

**Jane Hutt:** The school effectiveness framework, developed in partnership with local authorities and schools aims to improve outcomes for learners by schools, local authorities and the Welsh Assembly Government, focusing activities and policies on raising attainment and wellbeing. The framework will be piloted in schools across Wales in September.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)0481(CEL), yn ôl. Question 15, OAQ(3)0481(CEL), is withdrawn.*

sefydliadau addysg bellach ar gyfer darparu dysgu sy'n seiliedig ar waith? OAQ(3)0461(CEL) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau.*

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths):** Ni chaiff cyllid ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar waith ei ddyrannu i sefydliadau addysg bellach. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwahodd tendrau ar gyfer y ddarpariaeth hon ar dendr bob tair blynedd. Ym mlwyddyn bresennol y contract, cafodd y sefydliadau addysg uwch gyfanswm o gyllid gwerth £17.4 miliwn, sef rhyw 15 y cant o gyfanswm y cyllid sydd ar gael.

### Athrawon Cyflenwi

**C13 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu athrawon cyflenwi? OAQ(3)0498(CEL)

**Jane Hutt:** Ar 9 Mehefin, 4,857 oedd cyfanswm yr athrawon cyflenwi ar gofrestr athrawon cymwys Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Cyfrifoldeb ysgolion unigol, eu cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol yw penderfynu ar y modd priodol o ddefnyddio staff er mwyn diwallu anghenion dysgwyr.

### Lefelau Cyrhaeddiad

**C14 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella lefelau cyrhaeddiad yn ysgolion Cymru? OAQ(3)0502(CEL)

**Jane Hutt:** Mae'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol ac ysgolion yn anelu at wella canlyniadau i ddysgwyr gan ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan ganolbwyntio gweithgareddau a pholisïau ar godi cyrhaeddiad a lles. Caiff y fframwaith ei arbrofi mewn ysgolion ledled Cymru ym mis Medi.